

Cerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol – Arweinydd Cerddoriaeth Cynorthwyol

£21.00 yr awr heb dâl gwyliau

Y rôl:

Cynhelir Canolfan Cerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol (NOYO) Caerdydd fel partneriaeth rhwng [Open Up Music](#), [Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru \(CBCDC\)](#) a [Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC](#). Caiff rôl Caerdydd ei hintegreiddio a bydd yn cael ei thalu o fewn strwythurau staff Cyn-coleg CBCDC a bydd yn adrodd i'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cerddoriaeth.

Contractir rôl yr Arweinydd Cerddoriaeth Cynorthwyol gan Professional and Support Services Limited (sy'n darparu gwasanaethau i CBCDC) a bydd gofyn iddo ef neu hi gynnal ar arwain rihysals yng Nghanolfan NOYO CBCDC, gan ymateb i anghenion a gofynion penodol y cerddorion ifanc ac arwain eu datblygiad cerddorol yn unol â disgwyliadau NOYO.

Ynglŷn â CBCDC:

Mae'r Coleg yn denu'r doniau creadigol gorau o bob rhan o'r byd. Fel conservatoire cenedlaethol Cymru, rydym yn tanio dychymyg ac yn ysgogi arloesedd, gan gynnig hyfforddiant ar gyfer bron i 1000 o actorion, cerddorion, cynllunwyr, technegwyr a rheolwyr yn y celfyddydau o dros 30 o wledydd. Cyfunir doniau a photensial rhyfeddol ein myfyrwyr gydag addysgu eithriadol a chysylltiadau digyffelyb â'r diwydiant, i wireddu breuddwydion. Mae uchelgais a chydweithio creadigol yn ganolog i'n rhagoriaeth.

Caiff ein myfyrwyr eu trochi mewn amgylchedd diwydiant byw o'r eiliad y maent yn cyrraedd. Gyda rhai o leoliadau mwyaf clodfawr Cymru, mae'r Coleg yn gweithredu canolfan gelfyddydau ddeinamig, ac mae ein rhaglen perfformiadau gan artistiaid proffesiynol o'r radd flaenaf yn rhan annatod o hyfforddiant myfyrwyr. Rydym yn meithrin gweithwyr proffesiynol y dyfodol, fel eu bod yn gwrthio ffiniau newydd ac yn gwneud eu marc yn y diwydiannau creadigol, gan anelu at yrfaeod gwych. Mae'r dyfodol yn dechrau yma.

Rydym wedi ymrwymo i greu gweithlu sy'n cynrychioli cymdeithas. Ar hyn o bryd mae pobl o gymunedau ethnig amrywiol, y rheini sy'n hunan-nodi fel anabl ac unigolion niwroamrywiol a thrawsryweddol yn cael eu tangynrychioli, felly rydym yn awyddus i glywed gan ymgeiswyr o'r grwpiau hyn. Wedi'i leoli yng Nghaerdydd, mae CBCDC yn chwilio am unigolyn egniol, profiadol o'r safon uchaf, i wneud cyfraniad mawr i ddyfodol y Coleg.

Contractir y swydd hon fel rôl tiwtor barhaol gyda thâl fesul awr.

Rydym yn cynnig nifer o fuddion i gyflogeion sy'n cynnwys cynllun pensiwn rhagorol ac yn gweithredu system weithio hyblyg. Am ragor o wybodaeth: [Darganfyddwch fanteision gweithio gyda ni.](#)

Os ydych yn ymgeisydd llwyddiannus, a'r swydd hon fydd eich rôl gwasanaethau proffesiynol gyntaf yn y Brifysgol (neu os ydych yn cael eich cyflogi gan PSS Ltd ar hyn o bryd), fe'ch cyflogir gan Professional and Support Services Limited, is-gwmni ym mherchnogaeth Iwyr Prifysgol De Cymru, sy'n darparu gwasanaethau i'r Brifysgol a Cholegau. Os ydych yn ymgeisydd gwasanaethau proffesiynol mewnol, o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, byddwch yn parhau i gael eich cyflogi gan Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

I gael sgwrs anffurfiol am y swydd hon cysylltwch â kevin.price@rwcmd.ac.uk

I wneud cais, cyflwynwch ddatganiad o ddiddordeb yn cyfeirio at bob pwynt yn y fanyleb person, ynghyd â CV i hr@rwcmd.ac.uk erbyn 30 Mawrth 2023. Cynhelir y cyfweiliadau yn CBCDC naill 26 Ebrill.

Gwnewch gais ar-lein <https://www.rwcmd.ac.uk/who-we-are/careers>

Swydd	Arweinydd Cerddoriaeth Cynorthwyol NOYO
Coleg	Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
Adran	Cerddoriaeth - NOYO
Gradd a chyflog	£21.00 yr awr heb dâl gwyliau
Oriau gwaith	Tâl fesul awr
Hyd y contract (parhaol/tymor penodol)	Parhaol
Adrodd i (teitl swydd)	Dirprwy Gyfarwyddwr Cerddoriaeth, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Diben y Swydd

Fel Arweinydd Cerddoriaeth Cynorthwyol byddwch yn cynnal ac arwain rihyrsals Canolfan NOYO CBCDC, gan ymateb i anghenion a gofynion penodol y cerddorion ifanc ac arwain eu datblygiad cerddorol yn unol â disgwyliadau NOYO.

Cyfrifoldebau Allweddol

Fel Arweinydd Cerddoriaeth Cynorthwyol, byddwch yn addysgu, asesu a chynllunio ar draws y rhaglen Conservatoire Iau, ac yn y Coleg yn ehangach, gan gyfrannu at strategaeth a chynnwys y cwricwlwm.

Cyfrifoldebau Cwrs

- Cyfrannu'n llawn at y gweithdrefnau recriwtio a chlyweld presennol ar gyfer rhaglenni NOYO a'r Conservatoire Iau
- Cydweithio fel aelod o dîm i gefnogi gwaith eich cydweithwyr, yn enwedig wrth gynorthwyo'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cerddoriaeth a Phennaeth y Conservatoire Iau i amserlennu a gweinyddu gwaith yr adran, rheoli lles academiaidd a bugeiliol y myfyrwyr, a sicrhau arfer cyfannol ac integredig ar draws yr adrannau a'r Coleg yn ehangach.
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio a pharatoi ar gyfer rihyrsals. Gall hyn gynnwys datblygu a threfnu rhannau ar gyfer ystod o offerynnau gan gynnwys y Clarion ac offerynnau electronig.
- Gweithio mewn ffordd drefnus, gan flaenoriaethu a dirprwyo lle bo angen.

Dysgu ac Addysgu

- Cynorthwyo yn y gwaith o gynllunio a chyflwyno ystod o ddeunyddiau a thechnegau addysgu priodol ar draws y rhaglenni Conservatoire Iau a BMus, gan gynnwys addysgu ensemble, asesu, a goruchwyllo hyfforddiant un i un.
- Arddangos arfer da mewn addysgu, dysgu ac asesu drwy ysgolheictod a'r defnydd o ystod eang o adnoddau dysgu ac arfer addysgeg priodol sy'n deg i bawb ac yn bodloni safonau academiaidd a phroffesiynol.
- Sicrhau bod eich gwaith chi a gwaith y myfyrwyr yn effeithiol, heriol, iach a chynhwysol.
- Cynorthwyo i gefnogi datblygiad darpariaeth cerddoriaeth llawn ysbrydoliaeth a chynhwysol o ansawdd uchel ar draws ystod o amgylcheddau gan weithio gyda phobl ifanc anabl a rhai ag anghenion ychwanegol.
- Gweithio ochr yn ochr ag Arweinydd Cerddoriaeth NOYO er mwyn cynorthwyo i gynnal ac arwain rihyrsals rhanbarthol ar gyfer cerddorion ifanc anabl, gan flaenoriaethu a dirprwyo yn ôl yr angen.
- Aseiad a gwerthusiad ffurfiol o gynnydd a datblygiad cerddorol, wedi'i alinio â strwythur ABRSM.
- Dull hyblyg sy'n canolbwyntio ar y person ifanc ar gyfer datblygu a threfnu cerddoriaeth newydd gyda cherddorion, gan gynnwys defnyddio sgorau a nodiant. Defnyddio menter i arloesi yn gerddorol yn ogystal â gweithio o fewn fframwaith penodol.

Cyfrifoldebau Allweddol

- Sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn cael eu cynnwys yn gyfartal mewn gweithgareddau a'u bod yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu'n gerddorol.

Profiad Myfyrwyr

- Hyrwyddo a gweithredu mentrau, arferion a pherthnasoedd gwaith cadarnhaol sy'n gwella profiad myfyrwyr bob amser, gan ddefnyddio ysgolheictod, profiad personol a'r ystod o fetrigau sydd ar gael, mewn cydweithrediad ag Open Up Music, CBCDC a BBC Now
- Cyfrannu at gefnogaeth fugeiliol myfyrwyr, a chynnig arweiniad a chefnogaeth ar gyfer datblygiad yn y dyfodol yn ôl yr angen.
- Cyfrannu at brofiad ehangach myfyrwyr, megis cymryd rhan mewn digwyddiadau recriwtio, cyfranogi mewn mentrau cyflogadwyedd, cynlluniau lles a chynwysoldeb neu weithgareddau gwella penodol fel y bo'n briodol.
- Defnyddio a gwerthfawrogi amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu gan gynnwys yn gerddorol, yn eiriol a chorfforol, gan alluogi 'llais' y person ifanc i gael ei glywed.

Dinasyddiaeth Academaidd ac Arweinyddiaeth

- Myfyrio'n feirniadol ar arfer proffesiynol personol ac arfer proffesiynol eich cymheiriaid, gan ei ddefnyddio i wella eich gwaith eich hun a gwaith eich cydweithwyr a chwilio am ffyrdd esblygol ac arloesol o wella ac ychwanegu gwerth at y Coleg a'r adran.
- Cyfrannu at bwyllgorau, gweithgorau a rhwydweithiau o fewn a thu allan i'r adeilad, gan weithredu fel llysgennad rhagorol i'r adran a'r Coleg, fel y bo'n briodol.
- Hyrwyddo diwylliant colegol sy'n annog gwahaniaeth ac yn parchu amrywiaeth, gan weithio ar y cyd â myfyrwyr, staff, a gweithwyr proffesiynol ar draws y Coleg, maes addysg a'r diwydiannau creadigol.
- Cyswllt ar-lein ac wyneb yn wyneb â'r Cyfarwyddwr Cerddoriaeth NOYO, Swyddog Cymorth Bugeiliol NOYO ac athrawon offerynnol un i un.
- Gweithio ar y cyd ac yn gyfrifol, ac ymgysylltu mewn trafodaethau myfyrio ar-lein ac wyneb yn wyneb gydag Arweinwyr Cerddoriaeth ac Arweinwyr Cerddoriaeth Cynorthwyol NOYO eraill.
- Ymweld â Chanolfannau NOYO eraill i gysgodi Arweinwyr Cerddoriaeth Cynorthwyol eraill.
- Cysylltu â, ac adrodd i, gynhyrchwyr creadigol CBCDC a BBC NOW
- Cyfathrebu â thîm ymarferwyr NOYO drwy Basecamp (man gweithio ar-lein).
- Gweithredu fel llysgennad a chynrychioli gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd NOYO, Open Up Music, CBCDC a BBC NOW.

Cyfrifoldebau Asesu

- Cynnal asesiadau a rhoi adborth i fyfyrwyr yn ôl yr angen.
- Cynorthwyo i gynllunio, dylunio a datblygu strategaethau asesu ar gyfer myfyrwyr a hyfforddiant yn unol â chanllawiau academaidd y Coleg a disgywiliadau diwydiant.
- Gweithredu fel arholwr neu gymedrolwr ar baneli asesu yn ôl yr angen
- Cyfrannu at broses werthuso flynyddol NOYO yn ôl yr angen.

Cyfrifoldebau Rheoli

- Helpu i ddewis a chynnal sesiynau ymsefydlu a monitro ymarferwyr sy'n ymweld; sicrhau bod staff yn cadw at y codau ymddygiad derbynol ac yn addysgu i'r cynllun a'r lefel gywir.
- Mynychu hyfforddiant ymsefydlu a datblygu, yn ogystal â Model Cymdeithasol o Hyfforddiant Anabled, hyfforddiant Cydraddoldeb ac Ymwybyddiaeth Anabled a Hyfforddiant Diogelu.

Cyfrifoldebau Allweddol

- Dilyn polisiau diogel, cod ymddygiad a pholisiau ychwanegol ar gyfer gweithio'n ddiogel CBCDC a NOYO.

Manyleb Person

Er mwyn gallu ymgymryd â'r rôl hon yn effeithiol bydd angen i chi fod â'r priodweddau a'r sgiliau allweddol a amlinellir isod. Wrth lenwi eich cais cofiwch wneud yn siŵr eich bod yn dangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf hyn.

1 *	Dangos profiad sylweddol o ddull addysgu galwedigaethol ac sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr sy'n dangos angerdd a brwdfrydedd gwirioneddol ynghyd ag awydd i fyfyrto ar eich gwaith a'ch gwybodaeth eich hun a'u datblygu er mwyn datblygu dilysrwydd a rhyddid llais pob unigolyn a chroesawu eu huchelgeisiau a'u cefndir.
2. *	Hanes o gyflwyno arfer yn seiliedig ar wybodaeth wiriadwy o arddulliau a methodolegau addysgu, ochr yn ochr â gwybodaeth am, a gwerthfawrogiad o, ystod eang o gefndiroedd a chyd-destunau addysg.
3.*	Ymrwymiad amlwg i gyfrannu at werthoedd craidd CBCDC, sef tegwch, urddas a pharch, a dathlu amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant pobl o bob sector o gymdeithas.
4. *	Y gallu i weithio'n golegol gyda thîm sefydledig, gyda staff sy'n ymweld (gan gynnwys cyfarwyddwyr), a phartneriaid allanol, gan geisio integreiddiad a chysondeb o ran dull ar gyfer hyfforddiant ar draws y rhaglen a dangos sgiliau rhyngpersonol rhagorol (ar lafar ac yn ysgrifenedig).
5. *	Arddangos sgiliau trefnu a gweinyddol rhagorol gan gynnwys y defnydd o offer digidol, rheoli amser, meddwl yn glir, y gallu i flaenoriaethu gofynion sy'n cystadlu ochr yn ochr â phatrymau gwaith hyblyg conservatoire a thŷ cynhyrchu.
6.	Yn ddelfrydol, y gallu i gyfathrebu (ar lafar ac yn ysgrifenedig) yn Gymraeg. Bydd CBCDC yn cefnogi unrhyw anghenion hyfforddi neu ddatblygu yn hyn o beth.

Goruchwyliaeth Iechyd

Er mwyn gwneud yn siŵr na effeithir yn anffafriol ar iechyd cyflogion, ac er mwyn bodloni ei rwymedigaethau dyletswydd gofal a chyfreithiol, mae gan y Coleg system o wiriadau goruchwyliaeth iechyd pan fo angen. Mae Goruchwyliaeth Iechyd yn ofyniad cyfreithiol tra'n gweithio mewn amgylchedd swnllyd, defnyddio offer dirgrynu neu lle defnyddir sylweddau peryglus ac mae hefyd yn angenrheidiol pan nodir hynny drwy asesiad risg. Mae eich rôl wedi'i nodi fel un sy'n gofyn am oruchwyliaeth iechyd, felly gwneir trefniadau ar y cyfnodau priodol i chi gymryd rhan yn y broses goruchwyliaeth. A fydddech cystal â nodi bod eich cydweithrediad mewn cymryd rhan yn y broses a chaniatáu i ni gael ein llywio gan ganfyddiadau'r oruchwyliaeth yn orfodol.

Iechyd a Diogelwch

Eich cyfrifoldeb chi yw ymgyfarwyddo a chydymffurfio â Pholisiau a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch y sefydliad. Rhaid i chi hefyd fod yn gwbl gyfarwydd â'ch cyfrifoldebau iechyd a diogelwch a amlinellir yn y ddogfen Trefniadau Rheoli Iechyd a Diogelwch Cyfadran/Adran a'u gweithredu yn unol â hynny.

Ymrwymedig i fod yn Hyderus o ran Anabledd – Cynnig cyfweliad

Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi ymrwmo i gyflogi gweithlu amrywiol a chreu amgylchedd cynhwysol lle gall staff fod yn hwy eu hunain a lle caiff pob unigolyn ei drin ag urddas, tegwch a pharch. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o amrywiaeth o gefndiroedd a chymunedau, yn arbennig o ran oedran, anabledd, rhywedd, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil a chrefydd neu gred. Rydym yn gwarantu y bydd pob

Ymrwymedig i fod yn Hyderus o ran Anabledd – Cynnig cyfweliad

ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r holl feini prawf allweddol ar gyfer y swydd wag y maent yn ymgeisio amdani yn cael cynnig cyfweliad. Nodir y meini prawf allweddol gyda * yn y fanyleb person uchod.